

# SESIYNAU HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR TYMOR YR HYDREF 2017



Dyddiad, Amser a Lleoliad	Sesiwn Hyfforddi	Manylion y Cwrs
<p>Nos Fawrth 3 Hydref 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri Nos Fercher 25 Hydref 5.00-7.00pm Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri Nos Fawrth 14 Tachwedd 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri Nos Iau 30 Tachwedd 5.00-7.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Sesiwn Sefydlu Llywodraethwyr Newydd</b></p>	<p>Mae hyfforddiant cyflwyno yn ofynnol ar gyfer yr holl lywodraethwyr sydd newydd eu penodi. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad helaeth i lywodraethu ysgol a rôl llywodraethwyr, gan drafod yr holl feysydd a nodir gan Lywodraeth Cymru dan y Rheoliadau penodedig.</p> <p>Sylwch mai dim ond un o'r sesiynau y mae angen i chi ei mynychu oherwydd yr un cwrs fydd yn cael ei gyflwyno bob tro.</p> <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Nos Iau 26 Hydref 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri Nos Fawrth 7 Tachwedd 5.00-7.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri Nos Fawrth 21 Tachwedd 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Deall Data Perfformiad Ysgolion</b></p>	<p>Mae hyfforddiant data yn ofynnol ar gyfer yr holl lywodraethwyr sydd newydd eu penodi ac sydd wedi'u hailbenodi. Bydd y cwrs yn egluro sut y bydd eich Ymgynghorydd Her yn rhoi gwybodaeth i chi fel llywodraethwyr am broffil data eich ysgol, gosod targedau, perfformiad gwerth ychwanegol, asesiad athro, cynnydd disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1, 2 a 3 a hunan werthuso. Bydd yn egluro sut y gellir gwella hunan fyfyrion a herio proffesiynol o fewn ysgolion drwy ddefnyddio'r data hwn ac yn egluro manteision proses gadarn ar gyfer pennu targedau i wella canlyniadau a lles dysgwyr.</p> <p>Sylwch mai dim ond un o'r sesiynau y mae angen i chi fynd iddo oherwydd yr un cwrs fydd yn cael ei gyflwyno bob tro.</p> <p>Hyfforddwr: Staff Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Nos Fercher 18 Hydref 6.00-8.00pm Ystafell Bwyllgor 2, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Iechyd a Diogelwch</b></p>	<p>Bydd y cwrs hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gydymffurfiaeth gyfreithiol â'r polisiau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch priodol a gwaith cynnal a chadw safle'r ysgol. Bydd yn cynnwys elfennau sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn cysiau ar gyfer Penaethiaid a Gofalwyr Ysgol. Bydd hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer gosod a chynnal ffeil Reoli Iechyd a Diogelwch fel arfer da, ac mae fwyaf perthnasol i'r llywodraethwyr hynny sy'n aelodau o Bwyllgorau Iechyd a Diogelwch/Safle, ond mae croeso i bob llywodraethwr sydd â diddordeb yn y maes hwn fynychu.</p> <p>Hyfforddwr: Tiffany Barker, Swyddog Iechyd a Diogelwch Os hoffai llywodraethwyr ar unrhyw faes penodol o ran Iechyd a Diogelwch gael eu cynnwys yn rhan o'r sesiwn hon, cysylltwch â'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr (UCL) drwy <a href="mailto:governors@valeofglamorgan.gov.uk">governors@valeofglamorgan.gov.uk</a></p>
<p>Nos Iau 16 Tachwedd 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Llais Disgyblion</b></p>	<p>Nod y cwrs hwn yw helpu llywodraethwyr i gael yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfranogiad effeithiol gan ddisgyblion mewn cysylltiad â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn, Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p> <p>Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y ddeddfwriaeth berthnasol, yn egluro archwiliad cyngor yr ysgol a gynhelir bob dwy flynedd gan Gyngor Bro Morgannwg ac archwilio sut y gellir gweithredu llais disgyblion yn yr ysgol.</p> <p>Hyfforddwr: Ve Van der Voode, Swyddog Cyfranogiad Ieuenctid</p>
<p>Nos Lun 20 Tachwedd 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Gwella Lles Staff – Cefnogi ysgolion fel Gweithleoedd sy'n Hyrwyddo Iechyd</b></p>	<p>Sesiwn ryngweithiol yw hon â'r bwriad o wella gwybodaeth a dealltwriaeth y rhai sy'n mynychu ynghylch eu rôl yn y gwaith o ddatblygu gweithle sy'n hyrwyddo iechyd mewn ysgolion fel sy'n ofynnol gan Wobr Ansawdd Genedlaethol (NQA) Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach. Gan fod lefelau straen ymhlith staff ysgolion yn parhau i gynyddu ac yn parhau i fod yn bryder arbennig, mae'n hanfodol bod gan ysgolion bolisi clir ar gyfer hyrwyddo lles staff.</p> <p>Bydd y sesiwn hon yn archwilio materion sy'n wynebu staff, yn rhoi rhesymau ar gyfer gweithredu, datblygu syniadau i wella llesiant ar draws eu hysgolion ac amlinellu ffyrdd y gall llywodraethwyr gefnogi'r gwaith hwn.</p> <p>Hyfforddwr: Christine Farr, Uwch Arbenigwr Hyrwyddo Iechyd – Ysgolion Iach, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro</p>
<p>Nos Fawrth 28 Tachwedd 6.00-8.00pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri</p>	<p><b>Diogelu ac Amddiffyn Plant</b></p>	<p>Mae Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd statudol ar gyfrif llywodraethu ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn nodi cyfrifoldebau pawb sy'n bryderus dros les plentyn, yn cynnwys sicrhau y caiff pryderon eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.</p> <p>Bydd yr hyfforddiant hwn yn archwilio'r fframwaith deddfwriaethol a chyfarwyddyd ar gyfer diogelu plant, er mwyn hybu eglurder a chysondeb arferion a safonau cyffredin ym mhob ysgol. Bydd y sesiwn yn nodi rôl a chyfrifoldebau staff ysgol, gan gynnwys rôl y llywodraethwr Diogelu dynodedig, wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac amddiffyn plant iunol rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Bydd y cwrs yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â ffactorau risg ar gyfer plant, diffiniadau a dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod, themâu presennol o ran amddiffyn plant, adnabod niwed sylweddol, gweithredu ar amheuan, gwneud atgyfeiriadau a'r broses amddiffyn plant.</p> <p>Dorian Davies, Swyddog Diogelu, Gwella a Chynhwysiant Ysgolion</p>

# SESIYNAU HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR TYMOR YR HYDREF 2017



Dyddiad, Amser a Lleoliad	Sesiwn Hyfforddi	Manylion y Cwrs
Nos Fawrth 10 Hydref 5.00-7.00pm Tŷ Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ Nos Lun 13 Tachwedd 6.00-8.00pm Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd Caerdydd, CF10 4UW	Rheoli Perfformiad Penaethiaid	Bydd y sesiwn frifio hon yn cynnwys pob agwedd ar y broses y dylai llywodraethwyr sy'n aelodau o banel gwerthuso rheoli perfformiad y Pennaeth ei mynychu hefyd fel bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl rheoli perfformiad a'u cyfrifoldebau er mwyn gallu eu cyflawni'n effeithiol.  Nodau'r hyfforddiant yw i lywodraethwyr: • Ddeall gofynion y rheoliadau a sut y dylid eu gweithredu'n effeithiol. • Adolygu rôl y broses reoli perfformiad o ran codi safonau yn eich ysgol; • Adolygu sut y mae rheoli perfformiad yn cael ei ymgorffori yng nghyd-destun ehangach proses wella'r ysgol; ac • Adolygu gweithrediad y broses reoli perfformiad gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r rhai sydd ynghlwm.  Hyfforddwyr: Staff Consortiwm Canolbarth y De
Nos Fawrth 5 Rhagfyr 6.00-7.30pm Lolfa Gorfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Y Barri	Newyddion Addysg a Sesiwn Frifio	Dyma'r 18 <sup>fed</sup> sesiwn yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau blaenorol sydd wedi denu nifer uchel o lywodraethwyr yr oedd eu gwerthusiadau'n gadarnhaol iawn. Mae'r digwyddiad hwn ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn bennaf ond mae croeso i bob lywodraethwr fynychu. Bydd Cyfarwyddwr a Phenathiaid Gwasanaeth yr Adran Dysgu a Sgiliau yn bresennol er mwyn trafod datblygiadau i'r dyfodol ac i ateb cwestiynau gan lywodraethwyr. Bydd rhagor o fanylion penodol am y sesiwn hon yn cael eu cyflwyno yn hwyrach. Dyma gyfle gwych i lywodraethwyr gwrrd â'r Cyfarwyddwr a Phenathiaid Gwasanaethau a rhwydweithio â llywodraethwyr eraill. Cadeirydd y digwyddiad hwn fydd Dr Martin Price, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro.  Hyfforddwyr: Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, Trevor Baker, Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau a David Davies, Pennaeth Cyflawni a Bawb
Nos Fercher 8 Tachwedd 6.00-8.00pm Tŷ Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ Dydd Mercher 6 Rhagfyr 4.00-6.00pm Tŷ Dysgu, Nantgarw, Trefforest, CF15 7QQ	Hyfforddi Cadeiryddion	Bydd y sesiwn hyfforddi hon yn cefnogi Cadeiryddion i: • fod â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i gyflawni eu rôl yn effeithiol er mwyn cynorthwyo gwella ysgolion, codi safonau perfformiad, sicrhau y rhoddir ystyriaeth i les disgyblion a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir; • datblygu a gwella eu dealltwriaeth o rôl Cadeirydd effeithiol o ran arwain y corff llywodraethu; • magu eu hyder a'u sgiliau arwain, yn ogystal â'u gallu i ddatblygu perthnasoedd effeithiol gyda'u Penaethiaid, gan eu galluogi nhw i herio a chefnogi'r ysgol; • bod yn ymwybodol o faterion addysgol cenedlaethol a lleol a'u Hefffaith ar gyrf llwywodraethu; a • chydabod pwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i ddatblygu eu sgiliau a sgiliau'r corff llywodraethu, a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt.  Hyfforddwyr: staff Consortiwm Canolbarth y De

## NODYN PWYSIG YNGLŶN Â CHOFRESTRU AR GYFER CYRSIAU HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar gyfer pob cwrs yr ydych yn dymuno mynd iddo. Mae cofrestru yn ein galluogi i wneud yr holl drefniadau arlwy, seddau a chopïo angenrheidiol ar gyfer pob sesiwn hyfforddi. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu cysylltu â phawb ymlaen llaw os caiff y cwrs ei ohirio o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl. Cofrestrwch drwy e-bostio [governors@valeofgamorgan.gov.uk](mailto:governors@valeofgamorgan.gov.uk) neu drwy ffonio 01446 709107 (llinell uniongyrchol). Bydd pob e-bost yn cael ei gydnabod a byddwch hefyd yn derbyn e-bost atgoffa 7-10 diwrnod cyn bob cwrs.

Diolch am eich cymorth.

I gadw lle

@ E-bostiwch eich archebion yn uniongyrchol at: [governors@valeofgamorgan.gov.uk](mailto:governors@valeofgamorgan.gov.uk)  
neu FFONIWCH yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr ar 01446 709107 (llinell uniongyrchol).

Cyrsiau Hyfforddi yn y Dyfodol

Os oes gennych chi unrhyw syniadau neu geisiadau ar gyfer sesiynau hyfforddi llywodraethwyr yn y dyfodol, e-bostiwch nhw at: [governors@valeofgamorgan.gov.uk](mailto:governors@valeofgamorgan.gov.uk) i'w hystyried.